

Gwyfyn bwrned 6-smotyn ar ysgallen yn ardal Morfa Dinlle sh446581, Gorffennaf 2012.



Chwiler yr un math o bryf, ar y Gogarth ym mis Gorffennaf 2006 gan Dafydd V. Lewis

Dresel y Teulu - hen draddodiad ynteu cyd-ddigwyddiad?

Prynodd tad Dafydd hen dresel Gymreig a fu'n sefyll am rai blynyddoedd mewn rhyw sgubor yng nghyffiniau Aberffraw neu Bodorgan ar Ynys Môn tua 1938.

Ond roedd rhyw ddirgelwch yng ngylch un rhan fechan o'r dresel. Yng nghornel flaen chwith bwrdd y dresel mae darn o'r styllen wedi'i dorri allan, a darn arall o'r un maint wedi'i roi yn lleoliad y tamaid gwreiddiol. Rydym yn sôn am ddarn sy'n rhyw ddwy fodfedd prin o led a rhyw dair modfedd o hyd. Flynnyddoedd yn ddiweddarach daeth tad Dafydd adref a datgan fod tristwch yn hanes y dresel. Cafodd ar ddeall gan rhywun, i deulu a fu'n berchen ar y dresel ar rhyw gyfnod yn ei hanes ddioddef profedigaeth lem. Profedigaeth, nad anghyffredin yn nyddiau cynnar y dresel; ond eto nid oedd hynny'n lleihau'r tristwch na'r galar teuluol. Bu i'r teulu golli nail ai faban newydd-anedig neu blentyn ifanc iawn. Torrwyd ddarn o arch y plentyn a darn cyffelyb o ddresel y teulu. Cyffnewidwyd y darnau a hyd heddiw erys darn o arch y plentyn yn y dresel. Yng nghornel flaen chwith bwrdd y dresel mae darn o'r styllen wedi'i dorri allan, a darn arall o'r un maint wedi'i roi yn lleoliad y tamaid gwreiddiol. Parhaodd y dirgelwch fel rhan o gymeriad ein dresel ni. Wrth sefyll i siarad wrth gornel chwith y dresel byddai eich llaw bron yn ddieithriad yn gorffwysu ar y darn estron, fel petai hwnnw yn

ennyn sylw. Ydach chi wedi clywed am arfer o'r fath yn eich ardal chi o Gymru? A oes dresel yn eich teulu chi? A oes hen draddodiad Cymreig yma?

Ond nid dyna ddiwedd fy stori! Yn ddiweddar bu Dafydd a'i wraig Avril ar Ynys Barra. Ym mhreif dref yr ynys, Castle Bay mewn



amgueddfa daliwyd ei sylw gan dresel ac yn reddfol crwydrodd ei lygaid i gornel chwith y bwrdd ac yno er mawr syndod roedd darn rhyw ddwy fodfedd prin wrth dair wedi'i dorri allan a'i illosod gan ddarn gwahanol o bren.

Holwyd y wraig oedd yn gofalu am yr amgueddfa os oedd arwyddocad ond ni wyddai. Pan esboniwyd am y dresel ym Môn, dywedodd "Wel, mae hyn'na'n ddiddorol. Rydwi'n adnabod y teulu a roddodd y dresel yma i'r amgueddfa ac fe wn fod hanes colli plant ifanc yn y teulu!" Ydan ni yn awr yn edrych ar hen draddodiad Celtaidd yn hytrach na thraddodiad Cymreig yn unig? Cododd Dafydd un pwynt arall. Ar yr ochr chwith y rhoddyd y pren estron yn y ddau ddresel. Gall hyn, wrth gwrs fod yn gyddigwyddiad llwyr; lleoliad y ddau ddresel yn eu ceginnau gwreiddiol. Ar y llaw arall, mae'r gair "chwithig" ac ymdeimlad o "chwithigrwydd" parthed teimladau ac emosionau yn y Gymraeg a chynodiadau cynhesach na'r gair Lladin "sinistra" [gweler bwletin 47] sydd wedi rhoi i'r iaith Saesneg air caltech a mwy creulon ei gynodiadau. Efallai mai dychymyg person llaw chwith sydd yn chwilio am ystyr fan hyn? Ond ydi canfod dau ddresel wedi eu torri ar yr un ochr, yr ochr chwith, 500 milltir oddi wrth ei gilydd yn fwy na chyd-ddigwyddiad? Felly dyna ni:

Traddodiad Cymreig, Traddodiad Celtaidd, neu cyd-ddigwyddiad llwyr? A oes dresel yn eich teulu chi ac a allwch chi dafu goleuni ar y dirgelwch?

Gareth Pritchard

Wel chwi ddarlennwyr y Bwletin - cyd-ddigwyddiad, ynteu defod Geltaidd?

Llysywen bendoll yr afon



Cefais alwad amser cinio heddiw, Mehefin 16 i ddweud bod pethau rhyfedd iawn o dan Bont Fawr, Llanrwst. Rhedais i'r car i nol y camera a chael cyfle i weld a tynnu llun llysywen bendoll yr afon, *river lamprey*. Roedd pedair neu bump ohonynt yno. Dyma'r tro cyntaf i mi weld y pysgod yma. Buaswn yn falch o gael mwy o wybodaeth amdanynt.

Stori a llun: Alun Williams

Wedi gweld rhai o'r rhain yn yr afon

ym Mharc Glynllifon rhyw 3 i 4 blynedd yn ol. Roeddynt yn ymgorddedu o gwmpas ei gilydd a rhai yn cydio mewn cerrig hefo'i ceg fel petaent yn gwneud lle i ddodwy. Roedd eu ceg fel twll o dan y corff, dim ceg yn agor a chau fel un pysgodyn. Heb weld rhai ers hynny yno...Gwelais lun ar wal bwyty y 'Cornmill' yn Llangollen o 4 fath o'r rhain - rhai afon a rhai mor yn ol yr ysgrifen ar y llun.

Olwen Evans 26 Gorff 2012

Meddai Alun Williams eto: Gwelais yr erthygl yma yn y Telegraph, Dydd Sadwrn, Mehefin 27.

A rare bloodsucking fish said to have been responsible for the deaths of two English Kings is making a return to the country's rivers. The Environment Agency has confirmed reports from anglers that the river WEAR at Chester-le-Street, County Durham, has become a spawning site for lamprey.... the lamprey uses its suction-cup like mouth to attach itself to the skin of a fish and suck blood. During the Middle Ages they were widely eaten by the upper classes. A 'surfeit' of lampreys' has traditionally been blamed for the deaths of King Henry 1 and King John who often overindulged in them.

Ymatebodd Tom Jones fel hyn:

Byddwn yn gweld yr rhain yn dod i afon Dwyfor yn flynyddol o'r 60gau hyd yn ddiweddar. Fel yn yr erthygl Saesneg yn cydio mewn gwiniadau neu eog allan yn y môr ac yn dod i fyny'r afon i ddodwy yn ystod yr haf. Byddai rhai llathen a mwy i'w gweld islaw pont osgoi Llanystumdwy.

Tom Jones

Cofio'r stric a cnau brown...?



Medi 1934: Torri yd ar hyd yr wythnos hefo pladuriau. Gafra a chodi geifr. **Grytio y stric** [chwith] bump gwaith. Torri haidd ddydd Sadwrn a chario gwair o'r Weirglodd. **Hel cnau llond tair poced.**

Dyddiadur D.O. Jones, Padog

Sawl gafr (neu stycyn yd) fyddai DO wedi eu cael wrth orfod grytio ei stric bum gwaith?

A dyma lun cnau anaeddfed gwyn a dynnwyd ar y 5 Awst eleni yn Sir Amwythig. Ysgwn i a fydd yna lond tair poced i'w cael ym mis Med eleni. Rhowch wybod i ni. Roedd y wiwer lwyd yn greadur na fyddai DO yn gwybod amdano yn 1934?



Sut i dynu fodins...



Sut i ddenu benywod - rhwbio dipyn o dail gwartheg ar eich wyneb, chwythu hylif mwcaidd i'r awyr a wedyn rhuo dros bob man! Garantid o weithio pob tro.

Sylw a llun: Keith O'Brien

Chwilen y dom werdd



Wedi ei gweld pnawn ma 27 Gorffnnaf 2012 ar lwybr yr arfordir rhwng Ynys Arw ac Ynys Lawd.

llun a sylw: Bethan Wyn Jones

Dyma'r ail gofnod yn Lién Natur at y chwilen hon yn ardal Ynys Lawd

Beth ddylen ni alw hwn yn Gymraeg. Y *green rose chafer* ydyw yn Saesneg. Mae chafer a'r gair Almaeneg am chwilen (*Käfer*) yn gytras. Ond dywed Bethan mai un o deulu chwilen y dom ydyw. Felly beth am 'chwilen y dom werdd'.

Gwaell Wythien Goch



Wedi bod allan ar Fynydd Cilan trwy'r prynhawn (10 Awst) yn chwilio am weision neidr a ballu. Mi ddois i o hud i Waëll Wythien Goch - gweler y llun. Roedd o ar lyn bach o'r enw Pwll Du. Mi wnaethom ni ail-greu y pwll yma rhyw 3 mlynedd yn ôl hefo JCB. Rhyfeddol fod dŵr ynddo gan ei fod yn fas iawn ac yn sychu mewn hafau arferol.

A dyma'r Golygydd yn troi'n Sylwebydd, ar ôl iddo weld gwas neidr ar y traeth y diwrnod wedyn:

DB>Allan Brandon (cofnodydd gweision neidr gogledd Cymru); *This is an observation, not a record. While sitting on Dinas Dinlle beach [11 Awst] this afternoon in the sun chatting with the family our conversation was interrupted by a dragonfly (ochre coloured, Sympetrum-sized) flying across the beach from the direction of the sea towards the land. It brought to mind Rhys' recent record of Sympetrum fouscolombi [gwaëll wythien goch] on Mynydd Cilan which I believe he sent you (also an immigrant?). What, if anything, do you make of that, I'm not aware of any obvious recent immigrant moths so far this "heat wave" to corroborate a weather-led influx of insects.*

AB>DB You may well have had a female Red-veined Darter there – they're yellowish. Allan

A dyma sylw'r meteorolegydd Don Perkins o Lansadwrn, Môn am y tywydd y dau diwrnod hynny: *Low level trajectories during the afternoon originated from the Netherlands and Belgium, then came across central England. Possible Saharan origin not until around midnight via pool over Spain/ Med.*

Cofiwch am bedwaredd Cynhadledd Prosiect Lién Natur ar y 24 Tachwedd : Bywyd Gwyllt a'r Cymry

Dail y Beiblau



Un enw ar ddail y beiblau, a'r teulu cyfan, yw llyisiau Gŵyl Ifan. Yn Botwnnog cafodd Bethan Wyn Jones y ffurf "llyisiau gŵr ifanc". *St. John's Wort* ydi enw'r teulu yn Saesneg, ond tutsan yw enw'r aelod arbennig hwn, sydd yn dod o'r Ffrangeg tout sain, sef "yr holl iach". Cafwyd y ddeilen isod mewn hen lyfr emynau o'r Waunfawr. *Hypericum androsaemum* yw'r gwir "dail y beiblau". Byddai'n

dda gwybod beth yw hwn.



Lluniau: Duncan Brown

Credaf mai deilen y *Poinsettia* yw hon.

Menna Williams, Penygroes

Beth mae Mabberley, awdur y beibl blodau (D.J. Mabberley (2008); Mabberley's Plant-book, CUP), yn ei ddweud am *Poinsettia*? "*Euphorbia pulcherrima*..(*poinsettia*, Mexico) - basis of multi-million pound Christmas industry, rooted cuttings being flowered under short days and growth retardants, eg. B9 to produce bright red bracts on small plants for houseplant sale... latex used as depilatory [tynnu blew] in Mexico".

Y Ffawydd Melyn


"O ddarllen y pwt o erthygl am y Pitch Pein, ddaru hyn f'atgoffa am y sgwrs honno am enwau planhigion yn y Gymraeg a oedd yn cyfeirio at wahanol rywogaethau, ond gan ddefnyddio'r un enw". Oes yna eraill? gofynwyd... (ymddiheuriadau, enw'r llythyrwyr yng anghof - Gol.)

Wel oes, "ffawydd" ydy un ohonyn nhw. Roedd y diweddar Arfon Prichard, Garndolbenmaen wastad yn cyfeirio at y "pitch pein" fel "ffawydd melyn". "Ew, hen bren da Eith y pry' ddim ar ei gyfyl" meddai.

Fagus sylvatica ffawydd, ffawydd

Pinus palustris ffawydd, ffawydd melyn

Dyma fap William Linnard (Welsh Woods and Forests, Gwasg Prifysgol Cymru) yn dangos lleoliad enwau lleoedd yn cynnwys ffurf ar yr elfen ffawydd. O bosib, cyfeirio at y ffawydd melyn mae'r enwau mwyaf gogleddol (diweddar).



Map showing location of place names which include the Welsh words for hawthorn (ffawydd, ffawydd, ffawyddog). The three dots in north and west Wales represent names of eighteenth-century origin.

Sŵ teithiol yn Llanrwst

20 Awst 1949: Tori ŷd hefo pladur yn y bore ar prawn yn cae tan wal, torri lle ir injan. Gafra a chodi geifr. Mynd i Llanrwst gyda'r nos i weld ffilm Tap Rootes. **Sioe yn parc Gwydr llew a llewes. Arth ddu Himaloyan, mwnciod a llygoden fawr o dociau Caerdydd 28 ins o hyd.** Poeth, mwll clos.

Dyddiadur DO Jones, Padog

Mae gen i gof plentyn o weld anifeiliaid fel hyn mewn menagerie teithiol - ond lle a phryd nis cofiaf (DB)

Pry llwyd cyntaf

Pryd welsoch chi, neu deimloch chi, frathiad cyntaf y pry llwyd eleni? Cofnododd John Jones, Crowrach, Bwlchtocyn, y pry llwyd yn ei ddyddiadur pob blwyddyn am 11 o flynyddoedd. Y dyddiad



cyfartalog iddo weld y cyntaf oedd 14 Mehefin (cynharaf yn 7ed a'r hwyraf yn 24ain) Dyma un o'i gofnodion i'r perwyl:

19 Mehefin 1936: Terfysgu yn arw bore a bwrw. Terfysgu bu am sbel prawn wedyn. Dechrau priddo tatws. Pry llwyd cyntaf. Lladd Wil Tŷ Gwyn (Mynytho) gan fellten.

Ar y 20 Gorffennaf eleni y ces i (DB) fy mrathiad cyntaf (hiss..slap - y cythral bach!). Dyddiad hwyr iawn o'i gymharu a John Jones. Gyda'r tymor mor od eleni beth oedd eich profiad chi? A gyda llaw, pam oedd JJ mor ddyfal yn cofnodi'r pry llwyd - unrhyw syniad chi ffermwyr?

Gwybed bach yn bob man


1 Medi 1949: Gwybed bach yn bob man.

Dyddiadur DO Jones, Ty Uchaf, Padog

Pa fath o wybed bach fyddai DO wedi sylwi arnynt ym mis Medi ar ôl "haf gogoneddus 1949" yn ôl Alun Hughes, Llanymawddwy, "[pan] barhaodd yn sych a chynnes o Fehefin 21ain hyd ganol mis Hydref. Am y cyfnod o dri mis o Fehefin laf hyd ddiwedd Awst, roedd cyfanswm y glawiad yn Llyn Llanwddyn yn wyth modfedd - sy'n llai na hanner y glawiad arferol - ac yn y Trallwng roedd y glawiad yn bedair modfedd. Hynny yw, nid oedd yn eithafol sych o bell ffordd, ac ni ellir ei gymharu a'r sychder argyfyngus yn 1976. Haf fryd i'r ffarmwr, y garddwr a'r bobl ar wyliau fel ei gilydd, ac ni ellir bodloni'r dair garfan bwysig hon ond yn anam!! Parhaodd y tywydd yn anarferol o heulog a chynnes drwy fis Medi ac i fyny i'r 15fed o Hydref."

Fferm a Thyddyn Alun Hughes Llanymawddwy

Draenogod (BioGyfri2012)



Dyma'r map hyd yn hyn o gofnodion draenogod yn y gogledd ers 1990au hyd at eleni. Dim smotiau i'r de o Fachynlleth, oes yna ddraenogod tua'r sowth 'na deudwch?!

Cofiwch gofnodi pob corff draenog wrth i chi wibio ar hyd y lonydd yna. Dodwch y cyfeiriad grid (neu leolyn manwl arall) a'u rhoi yn Nhywyddiadur Llên Natur (neu mewn ebost ar y wefan)

Clirio eira

Stwff diddorol ar y wefan yma

<http://www.britishpathe.com/video/winters-first-snow/query/wildcard>

Ylwch ffordd mae nhw'n clirio'r eira o'r ffordd. Cliciwch y triongl gwyn i redeg y ffilm

Ifor Williams

Pry pren a'r ddiod feddwol



Anobium.punctatum
llun: Wikipedia

Cafodd y pedwar gobled uchod eu naddu tua phymtheng mlynedd yn ôl gan y coedwigwr a saer Hugh Roberts, o goed gwern a gafwyd o waith copis Gwarchodfa Natur Coedydd Aber, Abergwyngregyn.

Ni chafodd yr un ohonynt eu trin. Staen gwin sydd yn tywyllu'r ddau ar y chwith gan fod y pren amrwd yn gweithio fel sbwng. Ond ychydig o ddefnydd cafodd y ddau ar y dde - neu, fel y dywedodd Hugh wrth gyflwyno'r rhodd i ni, "mae'n rhaid yfed y gwin yn gyflym...!" Gyda threigl y blynyddoedd ymosodwyd ar y gobledi gan y pryf - neu o leiaf, y ddau ar y dde na chafodd eu defnyddio o gwbl. Byddai'r Band o' Hope 'stalwmwedi bod wrth ei fodd yn dangos peryglon y ddiod feddwol, i bryf ac i ni blant fel ein gilydd.

Eira 1767..a chais am wybodaeth

Yng nghyrol F G Payne ['Crwydro Sir Faesyfed' (Yr ail ran), Llyfrau'r Dryw, 1968, t26-27] ceir cofnod am farwolaeth tri bugail o'r un teulu yn eira mawr 1767. Mae Payne yn cofnodi pennill* am eu marwolaeth i fyny ar Fforest Clud, ond mae'r bedd yn Llanfihangel Rhyd Ieithon.

Byddai'n dda cael llun o'r garreg fedd. Tybed a oes gan Gym Ed Llwyd gymwynaswr yn yr ardal. Dyma gyfnod hefyd pan oedd ffeiradon yn cael eu hannog i wneud sylwadau am yr ymadawedig yng nghofnodion yr eglwys. Gwelais sylwadau reit ddiwr yng nghofnodion Eglwys Llanllwni. Mae Payne yn gweld y pennill yn ddi-chwaeth. Tybed a wnaeth ficer y plwyf ryw sylw tebyg. Os yw'r cofnodion ar gael byddent yn y Llyfrgell Gen.

Dai Thorne

*Coffeir y digwyddiad gan gerdd sentimental Saesneg.

Cyfeiria Payne at eira mawr ym mis Chwefror y flwyddyn dan sylw. Ond fe ymddengys mai mis Ionawr ydoedd:

Prydain 1767: *Cold winter...** [= digwyddiad eithriadol] *Early January: severe storm...heavy snowfall, 60 cm. 21 January: start of thaw....*

John Kington Climate and Weather Collins NN

Prydain: 3 Ionawr 1767 *Rivers and ponds froze over, mills on streams stop'd to grind. Very like the frost in 1739/40 this full 28 years past [1767?]. [Weather notes]*

Andover downs Ionawr 1767 Nat Hist Sel GW >>Thomas Pennant *in January 1767 I saw several dozen [of the bunting Emberiza miliaria [bras yr yd Miliaria calandra erbyn hyn, mae'n debyg]] in the midst of a severe frost among the bushes on the downs of Andover*

Dinbych Mis Ionawr 1767 a ddechreuodd yn rhewunt oer a ffyrnig iawn hud yr 8d, a'r diwrnod hwnnw yr oedd hi yn bwrw eira trwu r dudd, ac hi a barhaodd i licho yr hen ac i fwrw peth newudd dros wuthnos gyfa. Yr oedd hi yn llichfudd mawr a llawer o ffrudd wedi cau i fynu gan eira fel nad ellid mo r trafaelio a rhewi yn ffyrnig hud y 19d.

LLYFRAU ATGOFION A CHYFRIFON OWEN THOMAS CLIGC XVI 1970

Prydain Jan 9-18 1767 *Hard frosty weather, wind North East, but sun still shining day. The Earth much covered with snow the nine days past. The Lingring ague after the fever very common in all parts and sheep in several parts dyes to the much lost of their owners, being very hard times on men and Cattle and very Unhealthy, that as much as I can understand men are Banned as the Sheep are. [Weather notes]*

Dinbych 19 Ion 1767 a r diwrnod hwnnw toddi: rhewi drachefn LYFRAU ATGOFION A CHYFRIFON OWEN THOMAS CLIGC XVI 1970

Dinbych 20 Ionawr 1767 toddi a rhesymol deg hud y diwedd. Yr oedd y farchnad yn bur drud ar yr eira. Fe aeth peth gwenith yn Nhre ffynon i 22s. yr hob, ond erbun diwedd y mis yr oedd pob ud ynghulch yr un fath a mis Rhagfur LYFRAU ATGOFION A CHYFRIFON OWEN THOMAS CLIGC XVI 1970

Dyma ddywedodd Owen Thomas, Dinbych am dywydd Chwefror 1767. "Mis Chwefrol a ddechreuodd yn deg ac yn rhowiog iawn yr haner cynta, a'r haner ola yn wyntog ac yn wluw iawn..."

Palmwydd - arwydd o'r Cynhesu?



Yn Llên Natur beth amser yn ôl [Bwletin 7, 40 a 48*] holwyd am goed palmwydd. Mae'r llun [chwith] yn "Odd Corners in North Wales" William T. Palmer yn ddi-ddyddiad, ond efo "J. Easden, 1946" ar y

clawr mewnol. Mae'n dangos felly palmwydden yn tyfu ar ben y Gogarth yn ystod neu cyn y rhyfel. Twm Elias

Dyma'r dystiolaeth cynharaf o goed palmwydd yn ngogledd Cymru hyd yma, ac mae'n amlwg iddynt gael eu plannu'n helaeth yn Llandudno (Bwletin 40) cyn ymledu i'r gwyllt ar lannau'r afon Ddwyfor (Bwletin 7). Oes gennych chi dystiolaeth cynharach o erddi - neu dystiolaeth o goed palwydd yn rhedeg yn wyllt yng Nghymru? Er i goed palwydd ddygymod yn iawn â gaeafau oer (Bwletin 48) efallai bod yr hadau yn egino'n haws gyda'r byd cynhesach sydd ohoni.

(*I weld yr ol-rifynnau ewch i Bwletinau Llên Natur - y bumed eitem i lawr y fwydlen ar y chwith.)

Parsele

Hen ffermdy yn Llanedryn, Sir Benfro, nad yw'n bod mwyach. Dyma gartref Edward Evans, y dyddiadurwr, y byddwch yn darllen lot mwy o'i hanes yn y misoedd nesaf.

Gyda diolch i Mrs Gait (perchen y tir heddiw), a Hedydd Hughes (Menter Iaith Penfro)



Paentio cerrig



Dyma beth wnaeth Leisa Gwenllian ar brynawn gwlyb ar ôl casglu llwyth o gerrig a chregyn glan y môr.

Cewch weld llun arall o'r ffwng hwn ar flaen rhifyn papur 4 (neu rhowch amanita yn y blwch chwilio isaf yn yr Oriol.